

FRANCIS E. CHARDON: ASTUDIAETH BYWYD LLONYDD

ABSTRACT

Lefel: Cyfnod Allweddol 5, Oed 16-18
(blynyddoedd 12 a 13)

Pynciau: Celf, Hanes Celf, Hanes Lleol, Hanes Cymru.

Cyfanswm amser i'r dasg: 1 awr i ddarllen ac ar gyfer tasgau 1-3. Bydd amseru tasg 4 yn dibynnu ar gymhlethdod y cyfansoddiad a'r cyfrwng.



Francis E. Chardon: Astudiaeth Bywyd Llonydd




Ymarferiad mewn hanes byw gan Amgueddfa Llandudno.

Lefel: Cyfnod Allweddol 5, Oed 16-18 (blynyddoedd 12 a 13)

Pynciau: Celf, Hanes Celf, Hanes lleol, Hanes Cymru.

Cyfanswm amser i'r dasg: 1 awr i ddarllen ac ar gyfer tasgau 1-3. Bydd amseru tasg 4 yn dibynnu ar gymhlethdod y cyfansoddiad a'r cyfrwng.

Amcan: cyflwyniad i fywyd llonydd (still life) a chelf mewn deialog. Bydd gan y disgyblion 3 ffotograff bywyd llonydd ac un bywyd llonydd cyfrwng cymysg (mixed media) gyda pharagraff byr yn egluro sut mae testun a chyfansoddiad paentiad yn creu ystyr.



Francis Chardon

Cafodd **Francis Edouard Chardon**, sef sylfaenydd Fictoraidd Amgueddfa Llandudno, ei eni yng Nghalcutta ar Hydref 17eg, 1865. Roedd ei dad, Edouard Chardon, yn blannwr indigo ac roedd ei fam, Maria Theresa Rapallo, hefyd yn dod o deulu cefnog a oedd yn golygu y gallai Francis Chardon astudio celf heb orfod ei werthu. Daethpwyd â Chardon i Loegr pan oedd o'n 7 mlwydd oed. Astudiodd yn Llundain, yr Almaen a Ffrainc cyn cofrestru yn Sefydliad Celfyddydau Cain yn Napoli yn yr Eidal. Astudiodd o dan y meistr celf Giuseppe Casciaro sy'n arlunydd pasteli enwog. Mae ei waith yn parhau i gael ei werthu a'i gasglu hyd heddiw. Er nad oedd Chardon mor enwog â'i athro, cafodd yntau un arddangosfa yn Llundain a oedd yn llwyddiannus oherwydd ei ddulliau cyfansoddi. Ond beth yw cyfansoddiad celf? Cyfuniad o'r llinellau, siâp, lliw, gwead, gwerthoedd, ffurf, a gofod y mae'r artist yn cynllunio ac yn gweithredu er mwyn hoelio sylw'r gynulleidfa/gwyliwr mewn ffordd arbennig ydyw.

Llinell — y llwybr gweledol sy'n galluogi i'r llygad symud o fewn y darn.

Siâp — ardaloedd sydd wedi'u diffinio gan ymylon o fewn y darn, boed hynny'n geometrig neu'n organig.

Lliw — arlliwiau gyda'u gwerthoedd a'u hangerdd amrywiol.

Gwead — priodoleddau arwynebol sy'n trosi i rithiau cyffyrddol.

Gwerth — Cysgodi sy'n cael ei ddefnyddio i amlygu ffurf.

Ffurf — hyd, lled neu ddyfnder 3-D

Gofod — y gofod sy'n cael ei lenwi gan wrthrych (positif) neu rhwng gwrthrychau (negatif).



Giuseppe Casciaro yn dysgu bachgen i baentio.

Mae cyfansoddiad y paentiad yn cael ei ddylanwadu gan arddull artistig (sef sut mae artist yn mynd ati i greu'r cyfansoddiad), a thestun y darn (sef yr hyn sy'n cael ei gynrychioli yn y darn). Mae testun bywyd llonydd fel arfer wedi'i gyfansoddi o wrthrychau difywyd. Am hydoedd mae bywyd llonydd fel pwnc celf wedi cael ei ystyried i fod yn faes lle mae'r arlunydd yn ymarfer cyfansoddiadau. Ond weithiau mae yna ryw fath o iaith gôd yn cuddio yn y paentiad, gyda phob goddrych yn y paentiad yn awgrymu rhywbeth arall. Er enghraifft, gall grawnwinen awgrymu cyflwr enaid dyn a blodyn wedi gwywo yn awgrymu ei fod wedi colli ei ddiniweidrwydd neu ddiwedd i gylch bywyd. Yn y cyfnod Fictoraidd, roedd paentiadau bywyd llonydd yn cael eu defnyddio ar gyfer ystyried pethau moesol, ond hefyd adnabyddiaeth wyddonol o blanhigion ac anifeiliaid. Yn ogystal â chael eu defnyddio er mwyn archwiliadau artistig ym meysydd testun, cyfansoddiad ac arddull a fyddai'n rhoi sail i arlunwyr Modernaidd y 19eg Ganrif megis Picasso.

Francis E. Chardon: Astudiaeth Bywyd Llonydd
Edrychwn yn agosach ar fywyd llonydd Chardon isod:



Still Life
Francis E. Chardon (c.1865-1925)
Amgueddfa Llandudno

Tasg 1: Astudio Bywyd Llonydd (amser i'r dasg: 15 munud)

Meddyliwch am y cwestiynau canlynol:

1. Llinell — Lle mae'ch golwg yn glanio gyntaf? Sut mae'r gwrthrychau yn tywys eich golwg trwy'r paentiad?
2. Siâp— A yw ymylon y gwrthrychau yn y darn yn rhai geometrig neu organig? Oes yna unrhyw siapiau sy'n cael eu hailadrodd?
3. Lliw — A yw'r lliwiau yn naturiol? Dwys? Isel?
4. Gwead — Pa fath o weadau sydd i'w gweld yn y paentiad? Sut ydych yn dychmygu y buasent yn teimlo?
5. Gwerth — Sut mae'r cysgodi yn cael ei ddefnyddio i amlygu ffurfiau?
6. Ffurf — A yw'r paentiad yn rhoi'r argraff o ddyfnder? Sut?
7. Gofod — Sut mae'r gofod sy'n cael ei lenwi gan wrthrychau (gofod positif) neu'r gofod rhwng gwrthrychau (gofod negatif) yn y paentiad yn symud eich golwg?

Gadewch i ni edrych ar destun y paentiad. Gwydr gwin, cnau Ffrengig, pomgranad, a grawnwin. Mae lliwiau'r cefndir yn dywyll a'r hyn y mae'r gwrthrychau yn eistedd arno yn olau. Ond yn hytrach na thynnu sylw at eu hunain, maent yna er mwyn amlygu siâp, gofod a ffurf y testunau yn y darn. Efallai nad yw hyn yn golygu llawer i gynulleidfa fodern, ond buasai'n amlwg i artist Fictoraidd mai cynrychiolaeth grefyddol o'r llyfr *Caniad Solomon* adnod 6:11 yn y Beibl sydd yma.

Francis E. Chardon: Astudiaeth Bywyd Llonydd

“Es i lawr i’r berllan lle mae’r coed cnau, i weld y tyfiant yn y dyffryn; i weld a oedd y winwydden wedi blaguro, a’r pomgranadau’n blodeuo.”

Nid darluniad uniongyrchol o’r adnod sydd yma ond yn hytrach ymateb iddo. Eistedda’r gwydr gwin, sy’n symbol traddodiadol o waed Crist, wrth ymyl y Pomgranad, sydd hefyd yn symbol o fywyd tragwyddol ac atgyfodiad Iesu. Sylwch, ar y chwith, mae yna rawnwin sydd wedi’u gwahanu oddi wrth y clwstwr, mae yna gneuen Ffrengig wedi’i falu o flaen y gwydr gwin ac mae’r pomgranad melyn yn oraeddfed. Ar ochr dde’r paentiad, mae dwy gneuen Ffrengig yn gorwedd gyda’i gilydd a’r grawnwin mewn clwstwr. A yw Chardon yn sôn yma am sut y mae marwolaeth yn ein gwahanu? Efallai. Beth sy’n bwysig i’w ddeall yw ni chafodd y testunau a’r cyfansoddiad yn y bywyd llonydd yma eu dewis ar hap. Cawsant eu dewis yn benodol er mwyn cyfathrebu gyda chynulleidfa.

Edrychwn ar fywyd llonydd tebyg isod:



Still Life Study: Fruit
Artist Anhysbys (17eg Ganrif)
Amgueddfa Llandudno

Gadewch i ni feddwl am ba destunau sydd i’w gweld yn y paentiad yma, yn union fel y gwnaethom uchod. Yma, mae grawnwin ar winwydden iach yn amgylchynu pomgranad melyn llawn hadau sydd wedi byrstio. Wedi’u twcio o amgylch y grawnwin mae tair cneuen. Er eu bod dal yn gnau Ffrengig, yn hytrach na chael hadau’r cnau fel sydd gan Chardon, yma, mae ffrwythau aeddfed cnau Ffrengig. Mae hyn yn agosach o lawer at fod yn ddarluniad uniongyrchol o’r adnod o Ganiad Solomon.

Mae’n ddiddorol iawn meddwl am y gwahaniaethau rhwng y ddau. Yn **Still Life Study: Fruit** gan yr artist anhysbys, y pomgranad sydd ar agor neu’n blodeuo tra mae pomgranad Chardon yng nghau. Yn lle hynny, dengys Chardon i ni Gneuen Ffrengig wedi’i hagar, ond yn lle ei bod yn blodeuo, mae’n debyg mai wedi’i malu y mae hi. Mae gan y ddau baentiad dair Cneuen Ffrengig ac efallai bod hynny’n darlunio’r Tad, y Mab, a’r Ysbryd Glân. Ond, os felly, mae’r gneuen sydd wedi’i malu ym mhaentiad Chardon yn fwy arwyddocaol. Mae gwahanu ac arwahanrwydd yn nodweddion amlwg yn bywyd llonydd Chardon ond darlunio cysylltiad ac aeddfedrwydd y testunau y mae’r artist anhysbys. Gall hynny feddwl bod Chardon yn

Francis E. Chardon: Astudiaeth Bywyd Llonydd

teimlo ei fod ar wasgar ac yn ynysig yn grefyddol? Eto, ni allem fod yn siŵr, ond oherwydd ei fod yn berchen ar baentiad yr artist anhysbys, mae'n debyg y buasai wedi bod yn ymwybodol o bwysigrwydd ac ystyr symbolaidd y gwrthrychau a ddewiswyd ar gyfer y paentiad. Wrth edrych ar y paentiadau gyda'i gilydd a deall beth y maent yn ymateb iddo, gallem fyfyrion ar ystyr grefyddol i'r ddau ohonynt. Yn hytrach na dim ond bod yn ddarlun del, mae'r ddau baentiad yn annog y gynulleidfa i ddehongli negeseuon yn y gweithiau.

Tasg 2: Edrych o'ch cwmpas. (amser i'r dasg: 20 munud)

Ydych chi erioed wedi meddwl am eich gwaith bywyd llonydd eich hun? Ffotograffau yw cyfrwng heddiw, ac mae nifer ohonom wedi astudio gwahanol ffyrdd o ddal camera (neu ffôn), er mwyn cael y pellter gorau ar gyfer eich testun, sut mae golau ac ongl yn effeithio llun, ac yn fwyaf pwysig, sut mae'r lluniau hyn i fod i gyfathrebu gyda'r gynulleidfa. Cymrwch foment i edrych drwy'r lluniau ar eich ffôn, yn eich ystafell wely, neu yn eich cartref. Dewiswch un o'ch ffefrynnau. Allech chi ddweud pam fod y llun wedi'i gymryd drwy edrych ar y ffordd y mae'r testunau wedi'u trefnu? Ysgrifennwch baragraff byr i chi eich hun yn egluro sut mae cyfansoddiad y ffotograff yn procio'r teimladau.

Tasg 3: Symbolau Diwylliannol a Phersonol (amser i'r dasg: 30 munud)

Meddyliwch am y symbolau diwylliannol presennol sy'n rhan o'ch bywyd bob dydd ond efallai na fuasent yn amlwg yn syth i'r gynulleidfa. Er enghraifft, yr eiconau canlynol:



Ni fuasai'r rhain yn golygu unrhyw beth i rywun a oedd yn byw yn yr un adeg â Chardon, ond rydym ni'n gwybod eu bod yn golygu Saib, Chwarae, a Stop. Mae bywyd llonydd yn cyfuno symbolau diwylliannol adnabyddus sydd ynghlwm wrth wrthrychau er mwyn creu ystyron. Dewiswch dim mwy na 5 eitem yn eich cartref i greu bywyd llonydd. Trefnwch nhw mewn modd sy'n cyfleu neges i'r gynulleidfa. Er enghraifft, gall siswrn wedi'i roi ar ben llun o gariadon awgrymu eu bod wedi diweddu'r perthynas. Gall teganau mewn boc awgrymu gadael plentyndod. Cymrwch lun o'ch cyfansoddiad o dair ongl wahanol ac ysgrifennwch nodyn am yr hyn y mae'r gwrthrychau rydych wedi'u dewis yn golygu yn eich ffotograff.

Tasg 4: Celf mewn deialog (Amser i'r dasg: Chi yw'r artist, gweithiwch nes rydych chi'n teimlo ei fod wedi'i orffen.)

Defnyddiwch eich hoff ffotograff bywyd llonydd o dasg 3 uchod i greu bywyd llonydd mewn cyfrwng gwahanol o'ch dewis chi. Gall hyn fod yn gyfrwng traddodiadol megis pasteli, pensiliau, neu baent, neu gallech wneud rhywbeth mwy anturus megis defnyddio creon, ffyn hufen ia, neu gerfio gan ddefnyddio pethau a fuasai fel arfer yn mynd i'r bin ailgylchu. Ceisiwch ddefnyddio mwy nag un cyfrwng os hoffech chi. Nid oes rhaid iddo fod yn gopi uniongyrchol o'ch ffotograff, allai o fod yn ddehongliad artistig o'r hyn rydych yn ei weld. Pan rydych wedi gorffen, rhwch y ffotograff a'r fersiwn cyfrwng cymysg o'ch bywyd llonydd nesa at ei gilydd ac edmygwch y ffordd y maent yn wahanol i'w gilydd. A yw'r ail fywyd llonydd A gwahanol ystyr i'r un gyntaf? Sut mae'r ystyr yn newid i chi pan rydych yn newid cyfrwng?

Llongyfarchiadau artist! Rydych wedi creu celf mewn deialog.

Am fwy o fanylion am fywyd llonydd ewch i:

“Still life painting and drawing”, at <https://www.art-is-fun.com/still-life-paintings>

A Closer Look: Still Life by Erika Langmuir, published by National Gallery, London (28 Sept. 2010)

